# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17/10/23 |
| **Amser** | 9.30 tan 11.30 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Aelodau** | Claire Armistead (CA) - Ysgol Uwchradd y Rhyl, (Cadeirydd) Mark Hatch (MH) – Dinas Brân, Helen Vernon (HV) – Bodnant, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rhona O'Neill (RO) – Tir Morfa, Glen Williams – Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Geraint Davies (Pennaeth Addysg), Lindsey Davenport (LD) Is-Gadeirydd – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, y Cynghorydd Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg, Bethan Fell (BF) – y Gwernant, Sian Alwen (SA - Ysgol Glan Clwyd), Trefor Jones (Brynhyfryd), Rona Jones (RJ) - Emmanuel, Dafydd Davies (DD) - Twm o'r Nant, Leah Crimes (LC) - St Brigids, Teleri Llwyd (TL) - Borthyn |
| **Rhai nad ydynt yn aelodau** | Craig Joyce (CAJ) - Rheolwr Cyllido Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Nodiadau), Steve Gadd (SGADD) - Pennaeth Cyllid, Jamie Groves (JG) Cyfarwyddwr Corfforaethol HSDd |
| **Ymddiheuriadau** | Colette Owen - Esgobaeth, Neil Foley - Ysgol Uwchradd Prestatyn, Bernadette Thomas - Ysgol Crist y Gair |

## 1. Croeso

Croesawodd CA y grŵp.

**Roedd 15 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

## 2. Materion yn codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Dim materion yn codi. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gan y fforwm.

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2024/25 – Steve Gadd

Mynychodd SG y cyfarfod. Rhannwyd cyflwyniad a drafodwyd hefyd yn y Cabinet, gan gynnwys pwysau a lle'r ydym yn chwilio i leihau costau a gorwariant mewn meysydd allweddol.
Gofynnwyd i staff am syniadau i wneud arbedion, yn ogystal â'r aelodau. Mae ychydig o'r cronfeydd wedi cael eu defnyddio i leihau'r diffyg i £2.6 miliwn ar gyfer 24/25. Rhaid i

ysgolion barhau i gynllunio ar gyfer arbedion o 3%. Mae LlC wedi cadarnhau na fyddwn yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon.
Mae galw uchel ar wasanaethau cymdeithasol a'r cynnydd cytunedig mewn cyflog ac mae hyn yn cyfrannu tuag at y diffyg. Dywedodd SG yn y cyfarfod blaenorol fod chwyddiant yn uchel a bod costau yn cael eu gwthio gan hyn.

Ar 22 Tachwedd bydd y DU yn cyhoeddi'r gyllideb a dylem ni fel llywodraeth leol dderbyn ein cyllideb ddangosol erbyn 20 Rhagfyr. Mae ansicrwydd ynghylch y cyllidebau, ac rydym yn rhagweld diffyg sylweddol ar gyfer 2024/25.

## 4. Cynnig Cynllun Cyfun

Yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion diwethaf, roedd y cynlluniau cyfun wedi adrodd bod gorwariant o £400,000 ar gyfer 2022/23. Cytunwyd i gael gweithgor i edrych ar y costau o absenoldeb salwch. Cwrddodd y gweithgor a rhannwyd y papur cynnig gyda'r fforwm.

RJ - Yn deall ei fod yn ymarfer prisio er mwyn arbed arian ond roedd ganddo bryderon o ran disgyblion ADY.

Roedd NG eisiau trafod ag aelodau clwstwr eraill.

Gofynnodd TJ am eglurder ar y cynnig. Gofynnodd a oedd trafodaethau wedi digwydd o ran cyllid ar gyfer ysgolion a'r darpariaethau cymorth mewn lle. Roedd pryderon y byddai gwasanaethau anstatudol yn lleihau.

MH - fel aelod o'r is-grŵp roedd yn anodd llunio cynigion, ond teimlwyd y dylid ei dreialu am 6 mis i weld os fydd yn arwain ar arbedion pellach.

LD - mae'n bwysig bod cefnogaeth 1 i 1 yn cael ei gynnwys o'r diwrnod cyntaf, a chydnabuwyd hyn. Rhaid i'r fframwaith fod yn deg i holl ysgolion.

**CAM GWEITHREDU - CH i anfon e-bost at aelodau'r fforwm i fynd i drafod yn eu clystyrau. Pleidleisiau ar gyfer dewis 1, 2 neu 3 i'w hanfon yn ôl erbyn 27 Hydref gyda'r dewis a ffefrir ar gyfer pob clwstwr. Nid yw hyn ar gyfer holl ysgolion i bleidleisio; bydd aelodau'r fforwm yn pleidleisio ar ran y clwstwr.**

## 6. Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych

Mynychodd Jamie Groves y cyfarfod a rhannodd gyflwyniad PowerPoint mewn perthynas â'r cytundeb Defnydd Deuol. Bydd JG yn cwrdd â Phenaethiaid Uwchradd ar 14/11/23 ac yn hapus i gwrdd â Phenaethiaid yn unigol. Gwnaed cais hefyd i ysgolion ddarparu amserlenni cyn yr haf er mwyn i'r canolfannau allu dyrannu sesiynau pwll i ysgolion cynradd Hamdden Sir Ddinbych er mwyn nofio i gefnogi darpariaeth y cwricwlwm.

**CAM GWEITHREDU - CH i anfon copi o'r PowerPoint i'r fforwm.**

# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

**7. Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau**

Mynychodd Andrew Ward y cyfarfod. Roedd CH wedi rhannu cais gan Andrew cyn y cyfarfod o ran cynyddu'r pot ar gyfer cynnal a chadw Adeiladau. Bydd y cynnydd yn £50,000, gan nad yw'r gwasanaeth wedi cynyddu eu costau i ysgolion ers ei ddechreuad ac mae'r diffyg mewn costau yn anghynaladwy i mewn a thu hwnt i 2024/25.

**Pleidleisiodd a chytunodd y fforwm i gynyddu'r cyllid yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.**

## 8. Materion Clwstwr

Gofynnodd NG os allai'r cynllun yswiriant gynnwys costau dyletswydd Gwasanaeth Rheithgor ar gyfer staff addysgu. Roedd CH wedi cael trafodaeth gyda rheolwr cyllid y clwstwr ac mae'r llysoedd yn ad-dalu ysgolion ar gyfer staff, ond nid y costau'n llawn. Teimlwyd na fyddai'r cynlluniau yswiriant yn gallu ysgwyddo'r costau gan nad yw'n disgyn o dan absenoldeb salwch.

Gofynnodd CA petai ysgolion mewn anawsterau ariannol gael eu darparu â hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgol yn 2024.

**CAM GWEITHREDU - CH i drefnu hyfforddiant.**

## 9. Unrhyw Fater Arall

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 23/01/2024 ar Teams**